

Cyngor Cymuned Llangywer

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

Nos Lun, 12 o Fawrth, 2012

Preseanol: Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (Is Gadeirydd), John Morris, Eleri Jones, Olwen Jones, Gwyn Roberts, Emyr Jones, Alan Evans (Cyngorydd Sir), Lis Puw (Clerc)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes. Nid oedd ymddiheuriadau na datganiad o fuddiant.
2. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Ionawr 2012.
3. Materion yn codi o'r Cofnodion:

Gor yrru – derbyniwyd e-bost oddi wrth Dylan Wyn Jones (Cyngor Sir Gwynedd) yn cynnig rhoi marciau ARAF/SLOW ar y ffordd, adnewyddu'r arwydd rhybudd cyffordd ac ail-osod y peiriant mesur cyflymder. Diolchwyd am y mesurau hyn.

4. Gohebiaeth

- 4.1. **Parc Cenedlaethol:** Derbyniwyd llythyr yn caniatáu cais cynllunio Bryniau Golau
- 4.2. Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau gwaharddiad parhaol ar goed Glan y Gro
- 4.3. Derbyniwyd gwybodaeth am wrthod cais Penybont
- 4.4. Cefnogwyd cais NP5/70/114B, sef gwaith peirianyddol wrth y Beudy Bach, Llechwedd Ystrad
- 4.5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd y pamffled Agor y Gist
- 4.6. Ystyriwyd cais trwyddedu Y Fach Ddeiliog – dim angen ymateb
- 4.7. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am apwyntiad Cerys Thomas
- 4.8. Cytunwyd i'r Clerc i fynychu Cwrs ar Gyllid yn Y Bermo (cost £20) 22/3/12
- 4.9. Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru
- 4.10 Ystyriwyd cais am gyfarfod gan Scottish Renewables am Fynydd Mynyllod. Cytunwyd i beidio â'u cyfarfod.
- 4.11 Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Cefn Gwlad am adolygu mynediad i dir agored.

Cyngor Cymuned Llangywer

5. Materion ariannol

- 5.1. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol
- 5.2. Derbyniwyd derbynneb Hacker Young am waith 2010-11
- 5.3. Awdurdodwyd talu cyflog y Clerc: 1af Ebrill 2011- 31 Mawrth 2012
- 5.4. Ystyriwyd ceisiadau am arian a chytunwyd fel a ganlyn:

Eisteddfod Gylch yr Urdd Penllyn* <i>Taliad wedi ei wneud mis Ionawr 2012</i>	£50
Neuadd Llangywer	£450
Cymdeithas Glyn a Rhos	£100
Clybiau FF I Meirionnydd + mantolen	£50
Ambiwlans Awyr	£50
CYFANSWM CYFRANIADAU 2011-12	£700

6. Partneriaeth Penllyn : Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynrychiolwyr a dosbarthwyd yr holiadur cymunedol. Arwyddodd y Cadeirydd estyniad blwyddyn o'r Cytundeb gyda Gwynedd.
7. Dosbarthwyd ffurflenni enwebiadau ar gyfer y Cyngor Cymuned
8. Unrhyw Fater Arall: Derbyniwyd galwad ffôn yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'r ymgais i gadw Ysgol Y Parc ar agor. Cytunwyd i'r Clerc i ysgrifennu i fynegi cydsyniad y Cyngor.

Amser gorffen: 9.15pm